# SL(5)729 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol");
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd"); a'r
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (y "Rheoliadau Profion cyn Ymadael").

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn:

- yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn:
    - lleihau hynny o wybodaeth am deithiwr y mae'n ofynnol i bobl sy'n teithio i Gymru ei darparu er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac
    - ychwanegu esemptiad rhag y gofyniad i griw awyren sy'n cyflawni dyletswyddau ar fwrdd awyren er budd diogelwch yr awyren, fel llwythfeistri, feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol am y coronafeirws;
- diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd fel bod y wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i deithwyr yn cynnwys gwybodaeth am:
    - y gofyniad i feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol ar gyfer y coronafeirws; a
    - argaeledd y cynllun 'test to release' ar gyfer pobl sy'n hunanynysu yn Lloegr;
- gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Rheoliadau Profion Cyn Ymadawiad i sicrhau bod teithwyr perthnasol yn meddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol am y coronafeirws; a

- diwygio’r Rheoliadau Profion cyn Ymadael fel nad yw’n ofynnol i weithredwyr sicrhau bod hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol am y coronafeirws ar ffurf “prawf cymhwysol”.

Gwneir y Rheoliadau hyn ar sail pedair gwlad er mwyn cefnogi'r mesurau diogelwch pellach a gyflwynwyd yn yr ymdrech i atal peryglu iechyd y cyhoedd.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau hyn cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy’n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn “gwneud negyddol” gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri’r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 22 Ionawr 2021.

Yn benodol, nodwn yr hyn a ganlyn yn y llythyr:

> *“Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i’r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl. Roedd hyn yn angenrheidiol o ystyried yr angen i weithredu'n gyflym ac ar sail pedair gwlad er mwyn cefnogi'r mesurau diogelu pellach a gyflwynwyd yn yr ymdrech i atal perygl i iechyd y cyhoedd gan bobl sy'n teithio i Gymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin.”*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Nid yw'r diwygiadau a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Profion Cyn Ymadawiad yn ogystal â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd. Nid oes cyfeiriad penodol at y Rheoliadau Profion Cyn Ymadawiad yn y paragraff hwn o'r Memorandwm Esboniadol. Rydym yn cydnabod, fel yn achos y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, y gallai'r Rheoliadau hyn fod yn annhebygol o newid ymgysylltiad materion hawliau dynol o dan y Rheoliadau Profion Cyn Ymadawiad. Byddai'n cynorthwyo'r Pwyllgor pe bai modd egluro'r sefyllfa mewn perthynas â'r Rheoliadau Profion Cyn Ymadawiad.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

Nodir bod y Rheoliadau hyn yn diwygio'r gofynion i ddarparu gwybodaeth i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru. Yn absenoldeb ymgynghoriad cyn gwneud y Rheoliadau hyn, gofynnir i'r Llywodraeth egluro pa gamau, os o gwbl, a gymerwyd i wneud gweithredwyr yn ymwybodol o'r newidiadau hyn cyn iddynt ddod i rym, i sicrhau y gallai gweithredwyr gydymffurfio â'r gyfraith, fel y'i diwygiwyd. .

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Craffu ar rinweddau**

2. Mae'r Llywodraeth yn cadarnhau nad yw'r diwygiadau sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau yn newid y ffordd y mae'r Rheoliadau Profi cyn Ymadael yn ymwneud â'r hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

3. Gallwn gadarnhau yr hysbyswyd gweithredwyr ledled y DU ar 14 Ionawr 2021 am y bwriad i ddiweddaru'r rheoliadau ynghylch darparu gwybodaeth i deithwyr fel y byddai'n ofynnol hefyd i weithredwyr yn y dyfodol hysbysu teithwyr am y rhwymedigaethau newydd mewn perthynas â phrofi cyn ymadael. Darparwyd yr wybodaeth hon i weithredwyr yn uniongyrchol drwy sianeli cyfathrebu sefydledig a thrwy sefydliadau sy'n cynrychioli'r diwydiant.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth, a ddaeth i law yn ystod y trafodion, yn ei gyfarfod ar 1 Chwefror 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.